# Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru

## NWRC(2) 02-06 (p1)

### Dyddiad: 19 Mai 2006
### Amser: 10.00 - 12.30
### Lleoliad: Canolfan Gymunedol Craig Y Don, Llandudno
### Teitl: Tân Cyntaf – gorsaf dân gymunedol ar gyfer y Rhyl

**Tân Cyntaf – gorsaf dân gymunedol ar gyfer y Rhyl**

Mae atal tân yn rhan allweddol o waith y gwasanaethau tân ac achub – addysgu pobl i sicrhau eu bod yn cymryd camau sylfaenol i leihau'r risg o dân yn y cartref neu yn y gweithle. Un o'n prif amcanion yng Ngogledd Cymru yw lleihau nifer y tannau, ac o ganlyniad, lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol oherwydd tân. Rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo diogelwch tân, gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant mewn ysgolion, gyda grwpiau cymunedol, busnesau a mudiadau eraill, yn ogystal ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn y wasg.

Yn ychwanegol at ein holl waith diogelwch, rydym hefyd eisiau annog y cyhoedd i ddod atom i ddysgu mwy am y gwasanaeth tân ac achub a'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Yn ein Cynllun Integredig Rheoli Risg ar gyfer 2005, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fabwysiadu'r syniad o orsafoedd tân cymunedol a dewiswyd y Rhyl fel safle'r orsaf cyntaf o'r fath yng Ngogledd Cymru.

**Yr ardal**

Rhyl yw'r dref fwyaf yn Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o bron i 27,000. Mae Gorllewin y Rhyl, fel un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, wedi denu buddsoddiad allanol sylweddol. Tra fod Dwyrain y Rhyl, sef y ward lle lleolir yr orsaf dân, wedi gweld ychydig iawn o ran buddsoddiad ac yn brin iawn o ran cyfleusterau cymunedol.

**Yr orsaf**

Wedi'i hadeiladu ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf yn mae'r orsaf ei hun erbyn hyn angen ei hadnewyddu a'i moderneiddio. Yn dilyn symud pencadlys y Gwasanaeth i Lanelwy mae rhannau o'r adeilad yn y Rhyl yn wag ac felly'n gwneud y safle yn un delfrydol ar gyfer gorsaf dân gymunedol gyntaf y Gwasanaeth. Byddai defnyddio'r mannau gwag hyn at ddefnydd y bobl leol hefyd yn ymateb i'r gofynion sydd ar y gwasanaethau tân ac achub i weithio'n agosach gyda'r gymuned leol i hybu materion diogelwch tân.

## Yr ymchwil a'r cynlluniau

Er mwyn sicrhau dichonolrwydd y cyfleusterau cymdeithasol a'r orsaf, ymgymerodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ag astudiaeth o orsafoedd tân cymunedol ledled y Deyrnas Unedig er mwyn gweld pa rai oedd y rhai mwyaf effeithiol. Cysylltwyd hefyd a nifer o asiantaethau lleol a fyddai, efallai, a diddordeb mewn defnyddio'r cyfleusterau yn yr orsaf dân gymunedol arfaethedig.

Yn seiliedig ar yr ymchwil cychwynnol hwn mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi llunio cynlluniau ar gyfer yr orsaf. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau sylweddol i ardal weithredol yr orsaf – gan ddod a mwy o'r mannau gwaith at ei gilydd gyda'r bwriad o wella effeithiolrwydd a darparu'r cyfleusterau mwyaf modern.

Mae'r mannau cymunedol arfaethedig, fydd ar gael ar dri llawr, yn cynnwys pum ystafell gyfarfod fydd â'r cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth diweddaraf, un ddarlithfa, derbynfa gyda mannau gwaith, cegin fechan ar gyfer lluniaeth, storfa a man lle gellir gweld y peiriannau tân a'r staff wrth eu gwaith.

Bydd tu allan yr orsaf dân hefyd yn cael ei adnewyddu'n llwyr. Nodwedd bwysig fydd lifft allanol wydr fydd yn darparu mynediad i'r holl loriau i'r anabl, tra bydd man parcio eang tu cefn i'r orsaf.

Lansiwyd ymgyrch Tân Cyntaf y Rhyl ym mis Chwefror 2006 gyda chyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus yn y dref i geisio asesu'r farn leol am y cynllun. Mae'r ymgyrch wedi dangos fod angen gwirioneddol am y math hwn o gyfleuster cymunedol. Mae ymwybyddiaeth wedi ei godi yn lleol am y cynigion i ail fodelu Gorsaf Dân y Rhyl ac mae'r bobl leol wedi cael cyfle i gynnig eu syniadau hwy ar gyfer y man cymunedol a'r gweithgareddau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnal.

## Lansio darganfyddiadau yr ymgynghoriad

Yng nghyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lansio adroddiad, a luniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau'r orsaf dân gymunedol. Mae'r adroddiad yn edrych ar yr angen am orsaf dân gymunedol yn Nwyrain y Rhyl, rhan gyffredinol y gymuned yn y cynllun, barn y gwahanol grwpiau oedran, a'r math o gyfleusterau a digwyddiadau yr hoffai'r bobl leol eu gweld yn cael eu cynnal yn yr adeilad newydd.